Atodiad 4

Fy Nghyf: Scrutiny/Correspondence/MJH

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

8 Mawrth 2017

Y Cynghorydd Sarah Merry
Aelod Cabinet – Addysg a Sgiliau
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
CAERDYDD
CF10 4UW

Annwyl Sarah

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i chi am fynychu cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 7 Mawrth 2017 i roi datganiad agoriadol ac i ateb cwestiynau ar yr eitem agenda **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 – Adroddiad Cabinet drafft.** Hoffwn ddiolch hefyd i Nick Batchelar a Michele Duddridge Hussain am gyflwyno'r adroddiad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

Roedd y Pwyllgor yn falch o weld yr adroddiad gan gytuno i gymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet. Fodd bynnag, pan drafodwyd y ffordd ymlaen yn y cyfarfod roedd yr Aelodau'n bryderus braidd ynghylch argaeledd athrawon uwchradd sy'n siarad Cymraeg. Felly, hoffai'r Pwyllgor gefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd fel rhan o Ddeilliant 7, cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus, a byddant yn disgwyl gweld gwelliant o ran recriwtio dros y flwyddyn nesaf.

Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau a wnaed bod diffyg gweithgareddau cymdeithasol i blant sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Felly, awgrymodd y Pwyllgor y gellid cyfeirio'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gynnal Yr Hen Lyfrgell ar yr Aes, yn fwy effeithiol i gefnogi cyfleusterau ieuenctid Cymraeg eu hiaith yng Nghaerdydd.

Yn gywir

**Y CYNGHORYDD SIR RICHARD COOK**
**Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**

CC: Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes
Michele Duddridge Hussain, Rheolwr Gweithredol: Cynllunio a Gwasanaethau